

Cyfarfod Blynyddol 2020 - Adroddiad yr Ysgrifennydd Gweithgareddau

Y gŵyn arferol yw bod yr adroddiad bob tro'n debyg iawn i rai'r blynyddoedd blaenorol. Yn anffodus, nid yw hynny'n wir am 2020! Ond, er gwaethaf y Cloi Mawr a ataliodd bob taith o ganol Mawrth hyd at ddechrau Medi – a'r cloi llai ddiwedd mis Hydref – gellir dweud bod y misoedd eraill wedi bod yn yr un mor brysur a llwyddiannus ag arfer i'r clwb.

Cynhaliwyd 32 o deithiau cerdded, yn llythrennol o Fôn i Fynwy. Cafwyd 17 o deithiau penwythnos yn y gogledd, gyda chyfartaledd o bron 12 ar bob un, a'r nifer mwyaf, 23, ar daith Gallt yr Ogorch a'r Foelgoch ddyddiau'n unig cyn cyflwyno'r gwaharddiadau. Yr un math o niferoedd cyfartalog welwyd ar yr 7 taith yn ne Cymru, gydag 21 yn cerdded cyffiniau Crug Mawr ddechrau Rhagfyr. Yn ogystal â'r golygfeydd, efallai bod y gwledda yn y *Bear* yng Nghrughywel yn denu hefyd. Ond, yn ôl yr arfer, y teithiau ddydd Mercher welodd y niferoedd mwyaf, gyda chyfartaledd o dros 15 ar yr 8 taith gafwyd.

Diolch yn fawr i'r rhai a arweiniodd y teithiau hyn ac am eu trylwyrdd yn paratoi ac yn tywys yn ystyriol ar y daith ei hun. Ac, yn wyneb y trafferthion pesennol, diolch iddynt am fod yn hyblyg wrth i ni orfod ad-drefnu.

Un taith breswyl a gafwyd eleni, i Crianlarich ym mis Chwefror a'r arbrawf o aros mewn gwesty'n cael ei werthfawrogi gan y criw, yn arbennig gan fod y glaw a'r tywydd rhewllyd ac, yn arbennig, y gwyntoedd cryfion wedi creu amodau anodd iawn ar y mynydd. O ganlyniad, gosodwyd record anrhydeddus am y nifer lleiaf o gopaon llwyddiannus o unrhyw un o wythnosau'r clwb yn yr Alban!

Oherwydd y pandemig, gohiriwyd y teithiau oedd i'w cynnal i Hawes ac i Glen Shiel ym mis Mai. Collwyd hefyd y cyfle, yn enwedig dros y cyfnodau o dywydd hynod o braf a gafwyd, i gynnal gweithgareddau ychwanegol megis dringo a sgrialu a beicio mynydd.

Ymatebodd y clwb yn ofalus a phwyllog wedi i'r gwaharddiadau llymaf gael eu codi o fis Medi ymlaen, gan benu uchafrif o 12 i bob taith. Gweithiodd y syniad o gael dwy daith ar yr un dydd yn y gogledd yn dda, gan roi cyfle i ddewis o ran lleoliad ac o ran hyd a natur y daith. Wedi i waharddiadau teithio gael eu gosod ar nifer o siroedd, nid oedd yr un pwysau o ran niferoedd. Tra'r oedd aelodau Gwynedd a Môn (a siroedd eraill megis Ceredigion a Phowys) yn rhydd i fynd a dod, trefnwyd teithiau penodol – poblogaidd o ran nifer – ar gyfer aelodau Sir Conwy'n unig. Gyda chymaint o siroedd dan waharddiad teithio yn y de, roedd y sefyllfa'n gymhleth yno ond cynhaliwyd teithiau serch hynny gan gadw'n ofalus at y rheoliadau.

Byddwn bob amser yn croesawu sylwadau ac awgrymiadau ar gyfer sut y gellir gwella'r ddarpariaeth. A, chyd hyn, bydd angen meddwl am raglen 2021 felly byddwch yn barod, os gwelwch yn dda, i gynnig arwain a threfnu dros y flwyddyn sydd i ddod.

Eryl Owain

Hydref 2020